
Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 41 Hydref 2017



**Croeso arbennig i weinidog newydd yr ofalaeth,**

**y Parchedig Ddr R Watcyn James, a Mrs Lowri James**

Annwyl Gyfeillion,

Cyn i mi fentro gair ymhellach fe hoffwn ddiolch o galon i flaenoriaid ac aelodau'r ofalaeth, ac i chi yn bersonol, am eich croeso i Lowri a minnau i'ch plith. Mae llawer wedi bod wrthi'n ddygn i sicrhau bod y trefniadau oll wedi disgyn i'w lle a'r symud wedi bod yn ddidrafferth. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich gofal ohonom ac rwy'n edrych ymlaen am gael cyfleoedd i ddod i'ch adnabod bob un. Ac edrychwn ymlaen at y Cyfarfod Sefydlu sydd i'w gynnal yn y Garn ar 13eg o Hydref (DV).

Wedi cyflawni'r mis cyntaf rydym yn dechrau ffeindio'n traed ar hyd hen lwybrau a fu'n gyfarwydd i ni ein dau mewn oes a fu!

Ond peth od am ymweld â hen lwybrau, wrth gwrs, yw hyn. Er bod y llwybrau yn debyg a'r tirwedd a'r mynyddoedd wedi aros, dydyn ni ddim wedi aros yr un peth na'r cymunedau yr oeddem yn eu hadnabod wedi aros yn unffurf! Nid yr un ydym ni heddiw ag yr oeddem ddegawd yn ôl! A chilio mae hyder ein cynulleidfaoedd wrth i ni weld effeithiau a phwysau'r blynyddoedd arnom.

Fe fyddwn wrth fy modd pe medrwn gynnig blynyddoedd o sefydlogrwydd digyfnewid i bawb ohonom. Ond nid yw hynny'n bosib!

Hoffwn pe bai rhyw ffon hud gennym fyddai'n medru gweddnewid ein bywydau a'n profiadau fel cynulleidfaoedd. Hoffwn pe medrwn addo dyfodol llewyrchus i bob un o'r cynulleidfaoedd. Ond fyddwn i ddim yn twyllo neb wrth wneud hyn.

Anobaith **yw** canlyniad naturiol methiant ein galluoedd dynol i gwrdd â galwadau'n hoes. O'n cwmpas mae cnul anobaith a "gwacter ystyr" yn bwyta calonnau ac yn difetha bywydau. Mae'r lleisiau rheiny sy'n darogan gwae a thranc ein heglwysi i'w clywed fel "bwci ar bob camfa".

Ond **nid oes rhaid** i anobaith fod yn ganlyniad naturiol cydnabod ein hanallu i droi llif hanes a llifeiriant newidiadau cymdeithasol a diwylliannol ein hoes. Mae yna ddrws o obaith bywiol i bob Cristion sy'n fwy na'r wasgfa o anobaith difaol sy'n ein rhewi i'n hunfan.

Y drws gobaith hwnnw yw addewid yr Arglwydd Iesu Grist, yr un sy'n dweud amdano ei hun, fod "pob awdurdod yn y nef a'r ddaear" yn perthyn iddo, wedi addo'i wir eglwys, "yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd amser". (Mathew 28)

Ac yr ydym yn llwyr gredu fod ei fwriadau tuag at ei eglwys yn rasol, yn drugarog ac er adeiladaeth ei bobl heddiw.

Felly, gadewch i ni beidio â dechrau ar waith ein tymor newydd gyda'n gilydd gyda chysgod ofn ac anobaith drosom.

Os ydych chi'n aelod yn ein capeli sydd efallai wedi llithro a heb fynychu oedfa ers sbel fe hoffwn eich gwahodd chi i ddychwelyd i'n plith. Mae yma bennod newydd a chyfle newydd i geisio Duw gyda'n gilydd. Os oes plant ifanc gennych cofiwch fod yna gyfle iddyn nhw ddysgu am yr Arglwydd Iesu yn yr ysgol Sul. Gyda'n gilydd yng Nghrist fe allwn greu dyfodol gobeithiol.

Os ydych chi'n aelod ffyddlon carwn eich gwahodd i ymuno gyda mi i roi'r flaenoriaeth i geisio'r Arglwydd a'i fwriadau daionus tuag at ei bobl.

Gadewch i ni ymrwymo i'n gilydd ac i'r Arglwydd y byddwn yn gweddïo bob dydd: "Bydded Duw yn drugarog wrthym a'n bendithio, bydded llewyrch ei wyneb arnom, er mwyn i'w ffyrdd fod yn wybyddus ar y ddaear."

Ac wedi gweddïo fel hyn, gadewch i ni chwilio am arwyddion egin newydd fod yr Arglwydd, yr hwn sy'n hoffi trugarhau wrthym, yn dechrau adnewyddu a bywhau ei waith yn ein plith.

*Watcyn James*

# Tudalen y Plant



Yn nyddiau'r Beibl byddai pobl yn dod ag anrhegion i Dduw, i roi diolch iddo am anifeiliaid ac am y cynhaeaf. Mae'n bwysig ein bod ninnau heddiw hefyd yn diolch i Dduw am ofalu amdanom.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W | L | Ch | I | N | G | O | T | U | M |
| T | I | O | Rh | O | I | L | C | R | A |
| A | N | H | A | H | P | T | Y | F | U |
| M | Y | I | N | D | E | B | N | E | H |
| D | R | T | N | N | W | S | H | P | Ll |
| I | E | S | U | M | G | L | A | W | Y |
| O | G | U | R | O | Ff | A | E | M | D |
| L | U | B | Y | D | O | H | A | U | L |
| Ch | E | Ll | P | U | T | A | F | O | D |
| B | T | U | R | W | S | C | D | W | Rh |

Chwiliwch am y geiriau yma yn y grid, a rhowch gylch o'u cwmpas:

CYNHAEAF RHOI DUW RHANNU TYFU

DIOLCH IESU BYD GLAW HAUL

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes ysgol Sul, os dymunwch, erbyn **31 Hydref**. Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

***Manylion Cyswllt y Gweinidog***
***Y Parchedig Ddr R. Watcyn James,***
***Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ***
***01970 880615***
***ebost: watcynalowri@gmail.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c*

| | |
|---|---|
| 4 Hydref | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel Llanon am 1.30 o'r gloch |
| 7 Hydref | Cyfarfod Blynyddol Chwiorydd Henaduriaeth<br>Ceredigion a Gogledd Penfro am 2.30 pm<br>Capel Blaenannerch<br>I annerch: Eleri Twynog — 'Ymweliad â Bolivia' |
| 13 Hydref | Cyfarfod Sefydlu'r Parch Ddr R. Watcyn James<br>yn weinidog ar Ofalaeth y Garn<br>Capel y Garn am 6 o'r gloch |
| 29 Hydref | Oedfa'r ofalaeth am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Bugail yng Nghapel Rehoboth |
| 9 Tachwedd | Prosiect Cofio a Myfyrio<br>Dangosiad arbennig o'r ffilm *Cofia'n Gwlad*<br>Libanus 1877, y Borth, am 7.30 o'r gloch |
| 25 Tachwedd | Ysgol Sadwrn 2017<br>Cyfathrebu'r Beibl drwy Bregethu ac Addoliad<br>Tiwtoriaid: Y Parch. Euros Wyn Jones<br>a'r Parch. Ddr R. Watcyn James; 10am–3pm |
| 24 Rhagfyr | Gwasanaeth carolau undebol yn y Garn am 5 o'r gloch |
| 25 Rhagfyr | Oedfa deulu undebol am 9 o'r gloch ar fore'r Nadolig<br>yn y Garn dan arweiniad y Bugail |
| 31 Rhagfyr | Oedfa gymun i'r ofalaeth yn y Garn am 10 o'r gloch<br>dan arweinad y Bugail |
| Gweler hefyd: | www.capelygarn.org; Twitter: @capelygarn |



Rhai o aelodau ysgol Sul Pen-llwyn ac Ysgol Sul Unedig Bow Street yn mwynhau diod a bisged ar ôl gwasanaeth Menter Gobaith yn y Morfa bore Sul, 24 Medi.



Rhai o blant ysgol Sul a Chlwb Plant Capel Seion yn ffarwelio â Zoe




Menter Gobaith
Gogledd Ceredigion

Dewi Hughes, aelod o Fwrdd y Fenter, a ddiolchodd i Zoe Glynne Jones am ei gwaith fel Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid.

Pob dymuniad da i Zoe yn ei chwrs ym Mhrifysgol Aberystwyth.



Mae ysgolion Sul yn cwrdd yng Nghapel Seion, yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor, ac Ysgol Sul Unedig Bow Street yng Nghapel y Garn. Croeso cynnes i blant o bob oed – holwch y Gweinidog am fanylion

## *Ymweliad â'r Ysgwrn*

Dydd Sul, 9 Gorffennaf, teithiodd 35 o aelodau a chyfeillion y Garn a Noddfa i'r Ysgwrn, Trawsfynydd, cartref Hedd Wyn. Wrth gael paned a chacen ar ôl cyrraedd cyflwynwyd hanes a bywyd y bardd gan Emma, un o dywyswyr yr Ysgwrn. Wedi canu englynion coffa R. Williams Parry i Hedd Wyn, cafwyd cyfle i ymweld â'r arddangosfa gerllaw'r dderbynfa newydd. Yna, ymlwybro'n hamddenol i fyny i'r hen dŷ fferm a'n tywys o gwmpas y cartref. Yno, ar ôl gwylio ffilm fer am y Rhyfel Byd Cyntaf, gwelwyd y Gadair Ddu a'r ystafelloedd gwely, a threuliwyd amser difyr yn y gegin yng nghwmni Gerald, nai Hedd Wyn, wrth iddo olrhain atgofion o'i blentyndod yn yr Ysgwrn.



Ar ôl gadael yr Ysgwrn teithwyd trwy Trawsfynydd, lle gwelwyd cofgolofn y bardd a'r tŷ lle'i ganed. Mwynhawyd cinio blasus yn yr Oakley Arms yn Maentwrog cyn teithio ar hyd arfordir hyfryd Meirionnydd trwy Harlech a'r Bermo. Erbyn hyn, roedd yr haul yn tywynnu a Phen Llŷn ac Eryri yn edrych ar eu gorau. Diolch i Aled am ei sylwebaeth ddiddorol ar y daith. Diolch hefyd i'n gyrrwr, sef Rhys ap Tegwyn, am ei ofal drosom. Wedi'r cyfan, does dim trafford yn arwain o'r A470 i fyny at yr Ysgwrn nag o Maentwrog i lawr i'r Bermo.

Oherwydd anffawd i yrrwr beic modur ger Pantperthog, cawsom ein dargyfeirio drwy Dal-y-llyn i lawr i Dywyn ac Aberdyfi. Cyrhaeddwyd yn ôl yn ddiogel i Bow Street tua chwarter awr yn hwyrach na'r disgwyl.

*Alan Wynne Jones*





Gerald Williams, nai Hedd Wyn,
yn ei elfen yn sgwrsio
yn yr Ysgwrn

Cinio blasus a chwmnïaeth ddifyr









## *Newyddion Seion*

Ar 13 Awst eleni bu pererindod flynyddol Seion. Teithiodd tri ar ddeg ar hugain mewn bws a cheir i Bantycelyn, a braf fu cael cwmni aelodau o Gapel y Garn a Chapel Rhydyfagwyr. Roedd yr haul yn gwenu drwy'r dydd a dyffryn ffrwythlon Tywi ar ei brydferthaf wrth i ni adael Llanbed a mynd lawr i Lanwrda a Llanymddyfri tuag at gartref William Williams.

Fe'n derbyniwyd yno gyda chroeso twymgalon Cynthia a Cecil Williams, ef yn ddisgynnydd o'r chweched ach i Williams ei hun. Yn y gegin soniodd Cecil wrthym am gefndir y teulu a thipyn o hanes bywyd Williams, enwodd y ffermydd cyfagos a oedd yn perthyn i Bantycelyn a dywedodd am y dyrfa anhygoel o fawr ddydd angladd Williams yn ymestyn o Bantycelyn i Lanfair-ar-y-bryn. Yna fe'n harweiniwyd gan Cynthia i'r parlwr i weld trysorau'r teulu, yn lluniau a llyfrau ac yn arbennig iawn yn eu plith Lyfr y Gwesteion a alwodd yno ar hyd y blynyddoedd yn cynnwys llofnod David Lloyd George, Megan ei ferch, Dr John Williams, Brynsiencyn, a Syr John Morris-Jones. Cafodd pawb gyfle i lofnodi'r llyfr cyn ymgynnull o flaen y tŷ i dynnu lluniau a chyd-ganu emyn. Cyflwynwyd rhoddion i Cynthia a Cecil i ddiolch iddynt am eu croeso cyn ymadael am eglwys Llanfair-ar-y-bryn yn Llanymddyfri, lle claddwyd William Williams.

Yno i'n cyfarfod roedd Mr Dai Gealy, a chawsom ganddo hanes hynod gynhwysfawr a diddorol yr eglwys nodedig a hynafol hon. Offrymwyd gweddi ddwys a phriodol iawn gan Vernon Jones, a braf hefyd fu gallu ei longyfarch ar ennill y wobr gyntaf ar y delyneg '*Rhwyg*' yn Steddfod Môn. Canwyd emyn cyn ymgynnull wrth y bedd a chael hanes codi'r gofgolofn gan Mr Gealy.

Un lle oedd ar ôl i bererindota ato, sef Capel Coffa William Williams yn y dref. Yno cafwyd cyflwyniadau gan John Gwynn Jones, Ina a John Tudno, eto'n canolbwyntio ar waith a hanes y Pêr Ganiedydd a chanu emyn. Diolch i Swyn, Eos a Celt am ledio'r emynau ac i Rhian am gyfeilio ar yr organ nodedig iawn yn yr eglwys. Cyn troi am adref cafwyd pryd o fwyd a chroeso cynnes eto yn y King's Head ac ymunodd Cynthia a Cecil â ni yn glo perffaith i'r diwrnod.

Diolch o galon i Iestyn Hughes a Marian Beech am ymuno â ni a sicrhau fod gennym stôr o luniau a DVD i gofnodi diwrnod arbennig iawn.

*Ina Tudno Williams*

## Capel y Garn

**Llongyfarchiadau calonnog**:

i Vernon Jones ar ennill cystadleuaeth y delyneg yn Eisteddfod Genedlaethol Môn;

i'r ieuenctid a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau yn ystod yr haf, a phob dymuniad da i bawb sydd wedi newid ysgol neu ddechrau ar gwrs coleg neu brifysgol, ac yn arbennig i Ffion Evans a fydd yn dilyn cwrs hyfforddi fel parafeddyg yn Abertawe;

i'r Parch W. J. Edwards ar ddathlu hanner can mlynedd yn y weinidogaeth. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i nodi'r achlysur yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn, bnawn Sul, 10 Medi.

**Diolch**
i bawb a gyfrannodd at y casgliad tuag at y rhai a effeithiwyd gan y tân yn Nhŵr Grenfell, Llundain. Trosglwyddwyd £290 at yr apêl drwy gyfrwng y Groes Goch.

**Yr Ysgol Sul Unedig**
Mewn pwyllgor diweddar penderfynwyd y bydd yr Ysgol Sul Unedig yn cwrdd yn y Garn yn y dyfodol. I hwyluso'r gwaith hollbwysig yma, mae angen cydlynydd ac/neu athrawon – a byddai'r Gweinidog neu'r Swyddogion yn falch o glywed gan unrhyw un sy'n fodlon gwirfoddoli.

**Y Rhestr Flodau**
Os hoffech chi gyfrannu blodau ar gyfer rhai o'r Suliau gwag, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os gwelwch yn dda. Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

| **Hydref** | **Tachwedd** | **Rhagfyr** |
|---|---|---|
| **1** Noddfa | **5** Pantyperan | **3** Noddfa |
| **8** Marian B Hughes | **12** Pantyperan | **10** Alan ac Ann Jones |
| **15** Kathleen Lewis | **19** | **17** Bodhywel |
| **22** | **26** Elen Roberts | **24** Bodhywel |
| **29** Rehoboth | | **31** |

# Hydref

*Blaenor y Mis: Gruffydd Aled Williams*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie T Jenkins / Vernon Jones*

**1** Oedfa’r bore yng Nghapel Noddfa am 10 o’r gloch

4 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o’r gloch
Oedfa ddiolchgarwch, dan arweiniad y Parch Ddr Watcyn James

**8** Oedfa’r bore am 10 o’r gloch dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd
Oedfa’r hwyr am 5 o’r gloch dan arweiniad y Bugail

11 Pwyllgor a Chyfarfod Blynyddol CIC yn Festri’r Garn
am 7 o’r gloch

13 Cyfarfod Sefydlu’r Parch Ddr R Watcyn James yn weinidog
ar yr ofalaeth, yng Nghapel y Garn am 6 o’r gloch

**15** Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch dan arweiniad y Bugail
Gwasanaeth diolchgarwch yn y bore; oedfa gymun yn yr hwyr
Casgliad tuag at Apêl Corwynt Cariad

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
‘Trysorau personol’ gyda Gweneira, Gwynant,
MarianJ a Vernon

**22** Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch
dan arweiniad y Parch Adrian P Williams

**29** Oedfa’r ofalaeth yng Nghapel Rehoboth, Taliesin,
am 10 o’r gloch

## Tachwedd

*Blaenor y Mis: D Elystan-Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Erddyn James / Alan Wynne Jones*

1 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Pnawn yng nghwmni Maldwyn James,
Cymdeithas Ceredigion i'r Deillion

**5** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. John Roberts

**12** Oedfa am 10 dan arweiniad y Parch. Athro J Tudno Williams
Oedfa'r hwyr am 5 dan arweiniad y Bugail

17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Rhyw LUN o Hunangofiant', gyda Gareth Owen

**19** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch dan arweiniad y Bugail
oedfa gymun yn y bore;
oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

25 Bore coffi a stondin dan ofal y Chwiorydd
Festri'r Garn rhwng 10 a 12 o'r gloch

**26** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad Dr Terry Edwards

## Rhagfyr

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G. Hughes / Marian B. Hughes*

**3** *Sul cyntaf yr Adfent*
Oedfa’r bore am 10 o’r gloch yng Nghapel Noddfa
Oedfa’r hwyr am 5 o’r gloch yn y Garn dan arweiniad y Bugail

6 Cwrdd Chwiorydd y Garn
‘Dathlu’r Nadolig’ – mynd allan i ginio

**10** Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch
dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths

14 Gwasanaeth Nadolig Ysgol Rhydypennau
yn y Garn am 6.30 o’r gloch

15 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
Dathlu’r Nadolig, dan ofal Alan Wynne Jones

**17** Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10 o’r gloch yng Nghapel Noddfa
Casgliad tuag at yr ysgol Sul
‘Gwasanaeth y Gair a’r Geiriau’ yn y Garn am 5 o’r gloch

**24** Oedfa’r bore am 10 o’r gloch dan arweiniad y Bugail
Gwasanaeth carolau undebol am 5 o’r gloch

25 Oedfa deulu undebol ar fore’r Nadolig
dan arweiniad y Bugail am 9 o’r gloch

**31** Oedfa gymun i’r ofalaeth yn y Garn am 10 o’r gloch
dan arweiniad y Bugail

## *Prosiect Cofio a Myfyrio*



Bydd dangosiad arbennig o'r ffilm *Cofia'n Gwlad*, gan Euros Lewis, yn sinema Libanus 1877, y Borth, nos Iau, 9 Tachwedd 2017, am 7.30 o'r gloch.

Mae nifer cyfyngedig o docynnau ar gael – yn rhad ac am ddim – gan Llinos Evans, Ysgrifennydd y Pwyllgor. (01970 871615) – y cyntaf i'r felin ...

## *Paned a sgwrs wedi'r oedfa*

Un o arferion dymunol y Garn yw'r cyfle i gael paned a sgwrs ar ôl oedfa'r bore, ond efallai nad yw pawb yn cofio neu'n gwybod mai helpu i godi arian at y gost enfawr o adnewyddu'r capel yn ôl yn 1985/86 oedd y nod gwreiddiol.

Erbyn hyn ein prif amcan yw rhoi cyfle i'n haelodau a'n cyfeillion i gymdeithasu dros baned o goffi neu de a bisgedyn bach, ac wedi'r ad-drefnu diweddara cawn fwynhau cwmni aelodau o'r Ofalaeth yn ogystal â'n cyfeillion yn y Noddfa.

Diolch arbennig i ffyddloniaid y rota coffi am eu cydweithrediad a'u parodrwydd siriol – heb anghofio y 'dynion newydd' o blith ein blaenoriaid sy'n hynod handi efo lliain llestri.

*MEJ*

DS  Diolch yn arbennig i Marian am y syniad gwreiddiol ac am drefnu'r rota ers y cychwyn cyntaf.

## *Tŷ Capel y Garn*

Diwedd mis Hydref, byddwn yn ffarwelio â James, Kate ac Osian McCann, sydd wedi bod yn byw yn y Tŷ Capel ac yn gofalu am Gapel y Garn dros y blynyddoedd diwethaf hyn. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddyn nhw am eu gwaith a'u sirioldeb bob amser, ac yn dymuno'n dda iddyn nhw fel teulu yn eu cartref newydd.

Os gwyddoch am unrhyw a fyddai â diddordeb mewn dod i fyw i'r Tŷ Capel ac/neu ymgymryd â'r gwaith o ofalu am adeiladau'r Garn, cysylltwch â Dewi neu Alan, os gwelwch yn dda.

## *Help Llaw*



Bydd y Grŵp Help Llaw yn cwrdd am 2.30 prynhawn Mercher, 27 Medi. Croeso cynnes i chi i ymuno â ni neu i droi i mewn o dro i dro am baned a sgwrs.

Mis Hydref, rydym am ymateb i Apêl Water Aid i sicrhau ffynhonnell o ddŵr glân i drigolion Moomp yn Zambia. Mae tua 360 o bobl yn byw yn Moompo, yn ddibynnol ar dyfu cnydau bach fel India corn a *sorghum* i fyw. Ond dim ond un ffynnon sydd ganddyn nhw – y dŵr yn fudr, yn ddrewllyd ac yn sychu ar fyr dro. Does dim digon i'w yfed, heb sôn am blannu a dyfrhau llysiau.



Fe allwn ni helpu trwy gadw newid mân mewn potel neu lestr am fis cyfan a dychwelyd y cynilion i Help Llaw ar ddiwedd mis Hydref.

Rydym yn gofyn am eich cefnogaeth, yn blant ac oedolion.

Yn ddiolchgar,

Bethan (611502) Shân (828268)





Diolch yn fawr iawn i Delyth a Dwysli am drefnu’r bwyd, i Lowri a Ffion am helpu i weini’r bwyd, i Llinos am ei help yn y gegin, ac i Nans am drefnu’r raffl. Roedd elw’r noson tuag at ‘Corwynt Cariad’, Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru eleni, lle gobeithir codi £**14+** yr aelod i helpu pobl y Pilipinas.

## *Swper Cynhaeaf Capel y Garn*

Nos Wener, 15 Medi, cynhaliwyd Swper Cynhaeaf y Garn yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. Croesawyd pawb i'r achlysur gan Alan Wynne Jones, ac estynnodd groeso arbennig i'r Gweinidog, y Parch Ddr Watcyn James a'i briod, Lowri, atom.



Ar ôl mwynhau swper blasus a chael cyfle i gymdeithasu wrth y byrddau, cyflwynwyd ein gwraig wadd, sef Anna Jane Evans, o Gymorth Cristnogol. Soniodd Anna Jane am ei hymweliad ag Ynysoedd y Pilipinas ac am rai o'r prosiectau y mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn eu hariannu i helpu rhai o drigolion tlotaf yr ynysoedd, gan gynnwys helpu ffermwyr i dyfu reis yn fwy effeithiol.



Atgoffodd ein Gweinidog ni gymaint mwy oedd gennym ni na'r bobl hyn, a chymaint o wahaniaeth y byddai ein rhoddion ni – yr hyn na fyddem yn ei golli mewn gwirionedd – yn ei wneud i drawsnewid eu bywydau.

## *Pen-llwyn*

Mae’r wythnosau wedi gwibio heibio a ninnau yn nhymor yr hydref unwaith yn rhagor. Gan mai tymor y diolch y gelwir y tymor hwn, a chan fod cymaint gennym i gyd i ddiolch amdano o ddydd i ddydd, ategwn eiriau'r emynydd: ‘Diolchaf am gysuron gwiw, / wyf heddiw’n eu mwynhau’. Gwyliwn rhag i ni gymryd y bendithion hyn yn ganiataol ac anghofio’r Rhoddwr Mawr, ond cawn ein hatgoffa yn yr un emyn: ‘Diolchaf fwy am Un a fu / yn gwaedu ar y Groes’ – ‘Diolch iddo / byth am gofio llwch y llawr’.

Braint oedd cael croesawu ein Gweinidog newydd atom ar Sul, 3 Medi. Daeth y Parchedig Ddr Watcyn James a’i briod Lowri atom o Dŷ-croes, Rhydaman, lle bu iddynt ymgartrefu am dros ddeng mlynedd ar hugain. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ei weinidogaeth yn ein plith fel gofalaeth ac at eu croesawu eu dau i Eryl, Pen-llwyn.

Yn addas iawn, astudio Salm 67 y buom yn ei gwmni y Sul cyntaf yna; ynddi mae’r Salmydd yn erfyn ar i Dduw ddangos trugaredd tuag atynt a’u bendithio. Beth yn fwy allwn ninnau ei ddeisyfu yn yr oes ddi-Dduw yma y cawn ein hunain ynddi ond syrthio ar drugaredd Duw a gofyn am ei Fendith Ef arnom.

Gweddïwn y bydd i ni fel gofalaeth roddi pob cefnogaeth i Dr James, rhoi ein presenoldeb yn yr oedfaon a hefyd ei gofio yn ein gweddïau wrth iddo gyflawni gwaith pwysig a dyrchafol yn ein plith.

Croeso i chwi eich dau, a hyderwn y byddwch yn gartrefol a hapus yn eich gofalaeth newydd ac yn eich cartref, ar ei newydd wedd.

Anfonwn ein cyfarchion a’n dymuniadau da at aelodau a ffrindiau yn bell ac agos, rhai mewn gwaeledd ac eraill yn dechrau ar bennod newydd yn eu bywydau. Cofiwn hefyd am bawb sydd mewn sefydliadau ac unedau preswyl a gofal: boed bendith arnoch un ac oll.

Cwrdd Diolchgarwch Seion, Capel Seion

Nos Fercher, 18 Hydref, am 7 o’r gloch

Pregethwr gwadd:

Y Parch Morris Puw Morris, Rhuthun

Swper i ddilyn – croeso cynnes i bawb



## *Taith Capel Rehoboth*

Yr Ysgwrn yn Nhrawsfynydd oedd cyrchfan taith flynyddol aelodau a ffrindiau capel Rehoboth, Taliesin ddydd Sadwrn, 9 Medi. Cawsom ein croesawu gan Emma yn y Beudy Llwyd, yr hen feudy sydd wedi ei drawsnewid i fod yn ganolfan i groesawu ymwelwyr. Ar ôl mwynhau paned a chacen yno, dangoswyd ffilm am hanes Hedd Wyn, ei deulu a'r fferm. Ar ôl cerdded at y ffermdy, cawsom ein tywys i'r parlwr lle mae'r Gadair Ddu hardd, a enillwyd yn Eisteddfod Penbedw yn 1917, fel yr unig gelficyn yn yr ystafell i nodi ei phwysigrwydd yn yr hanes trist. Yna aethom i'r gegin gartrefol lle'r oedd tanllwyth o dân yn yr aelwyd, a'r ystafell yn llawn o'r dodrefn a oedd yno gan mlynedd a mwy yn ôl. Roedd y Bwtri yn cynnwys yr offer a ddefnyddiai'r gwragedd i wneud ymenyn, a lle cedwid y bwyd yn oer ar silffoedd llechen. Roedd y pum cadair arall a enillodd Hedd Wyn mewn gwahanol eisteddfodau yn yr ystafelloedd ar y llofft. Diolch i Emma am ei brwdfrydedd wrth ein tywys, a dysgwyd llawer mwy am hanes y bardd a'i deulu yn ystod yr ymweliad. Mae'r Ysgwrn ar ei newydd wedd yn ganolfan werthfawr i gadw mewn cof nid yn unig aberth Hedd Wyn ond y genhedlaeth o ddynion ifainc o Gymru a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Mawr.



Mwynhawyd y golygfeydd godidog wrth deithio yn yr heulwen trwy gwm Prysor tuag at Llyn Celyn a'r Bala, lle'r arhoswyd am orig i gael cinio. Yna aethom i ymweld â Byd Mary Jones yn Llanycil, ger y Bala, y ganolfan i ymwelwyr sy'n adrodd hanes Mary Jones yn cerdded o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala yn 1800 i brynu Beibl gan Thomas Charles. Gwelwyd bedd Thomas Charles ym mynwent yr eglwys.

Arhoswyd yng ngwesty'r Eryrod yn Llanuwchllyn ar y ffordd adre i fwynhau pryd o fwyd blasus, a diolchwyd i Bob Williams am drefnu taith bleserus iawn ar ein cyfer unwaith eto.

*Carys Briddon*

## *1567–2017: Cofio William Salesbury*

Yn briodol iawn mae Cristionogion Cymraeg yn dathlu eleni drichanmlwyddiant geni Pantycelyn. Ond fe ddylem gofio eleni hefyd am gymwynaswr crefyddol mawr arall, sef William Salesbury a gyhoeddodd ei Lyfr Gweddi Gyffredin a'i Destament Newydd yn 1567, bedwar cant a hanner o flynyddoedd yn ôl.

Yn frodor o Lansannan, fe addysgwyd Salesbury yn Rhydychen, lle daeth yn ymwybodol o ddau o fudiadau pwysig yr oes, y Dadeni Dysg a'r Diwygiad Protestannaidd, gan ddod yn Brotestant o argyhoeddiad. Yno hefyd fe sylweddolodd rym y diwylliant print newydd, a oedd yn lledaenu syniadau'r Dadeni a'r Diwygiad ledled Ewrop, ac yn sgil hynny fe sylweddolodd y pwysigrwydd o gyhoeddi llyfrau print Cymraeg. Rhwng 1547 a 1551 fe gyhoeddodd Salesbury gymaint â saith o lyfrau, tri ohonynt yn Gymraeg ac un arall yn eiriadur Saesneg–Cymraeg.

Casgliad o ddiarhebion Cymraeg oedd *Oll Synnwyr pen Kembero ygyd* [= Holl Synnwyr Pen Cymro Ynghyd] a gyhoeddodd Salesbury yn 1547. Ei ragymadrodd sydd bwysicaf i ni heddiw. 'Mynnwch yr ysgrythur lân yn eich iaith' oedd anogaeth Salesbury i'r Cymry, ac meddai ymhellach:

> Pererindotwch yn droednoeth at ras y Brenin a'i Gyngor i ddeisyf cael cennad [= caniatâd] i gael yr ysgrythur lân yn eich iaith.

Ar y pryd yr oedd y Saesneg yn prysur ddod yn iaith crefydd gan ddisodli Lladin yn y gwasanaethau, tuedd y gwelwyd ei phenllanw gyda chyhoeddi Llyfr Gweddi Gyffredin Thomas Cranmer yn 1549 gyda'i ffurfwasanaeth Saesneg cyflawn. Ond mewn oes pan oedd trwch y Cymry yn uniaith Gymraeg, yr oedd y gwasanaethau Saesneg newydd yn annealladwy. Ateb Salesbury oedd mynd ati i gyfieithu epistolau ac efengylau'r Llyfr Gweddi Saesneg a'u cyhoeddi yn *Kynniver llith a ban* yn 1551, cyfrol arloesol a phwysig o ran dyrchafu'r Gymraeg yn iaith crefydd.

Yr oedd Salesbury yn ieithydd gwych, yn medru Hebraeg, Groeg, Lladin, Ffrangeg, Almaeneg 'ac eraill ieithiae' yn ôl un o'i gyfoeswyr, ac yn gydnabyddus ag ysgolheictod Beiblaidd gorau'r dydd. Ac yr oedd yn Gymreigiwr tan gamp hefyd. Ond mae awgrym mai derbyniad llugoer a gafodd *Kynniver llith a ban*. Y rheswm, mae'n siŵr, oedd rhai o nodweddion rhyfedd dull Salesbury o sgrifennu'r Gymraeg: Lladin oedd yr iaith uchaf ei bri ymhlith dysgedigion yr oes, a mynnai Salesbury Ladineiddio sillafiad y Gymraeg, gan argraffu pethau fel *popul* (pobl) ac *eccleis* (eglwys); ymwrthodai â dangos y treigladau (*y popul* [= 'y bobl'], *dy Deo* [= 'dy Dduw], ac ati). Nodweddid cyfieithiadau diweddarach Salesbury hefyd gan bethau o'r fath gan amharu ar eu derbyniad.




Dychwelyd at Ladin a wnaeth y gwasanaethau yn ystod teyrnasiad y Gatholigwraig Mari (1553–8), ond gydag esgyniad Elisabeth i'r orsedd ac ailgyflwyno Protestaniaeth dechreuodd Salesbury a'i gyfaill, yr esgob Richard Davies, Esgob Tyddewi, bwyso'n daer am Feibl a Llyfr Gweddi Cymraeg. Penllanw eu hymgyrchu oedd Deddf 1563 yn gorchymyn cyfieithu'r Beibl a'r Llyfr Gweddi i'r Gymraeg erbyn Dygwyl Ddewi 1567. Yn rhannol y cyflawnwyd gofynion y ddeddf: cyhoeddwyd y Llyfr Gweddi Cymraeg ym Mai 1567 a'r Testament ym mis Hydref. Gwaith Salesbury oedd y cyfan o'r Llyfr Gweddi (a gynhwysai gyfieithiad cyflawn o'r Salmau) a thua 85% o'r Testament (cyfieithodd Richard Davies bump o'r epistolau a Thomas Huet, cantor Tyddewi, Lyfr y Datguddiad).

Gyda chyhoeddi'r gweithiau hyn fe sefydlwyd y Gymraeg yn iaith crefydd yng Nghymru. Ond nid oedd yn anorfod fod hynny wedi digwydd. Cofier i iaith Cernyw farw cyn cael Beibl ynddi. Cofier hefyd i Salesbury a'i gydweithwyr ddioddef gwrthwynebiad. Soniodd Salesbury fel yr aeth rhywrai at gyhoeddwr y Llyfr Gweddi a'r Testament, 'Some saying wyth *Iudas* the Traitor, what needed thys waste? For when ye haue all done, there is fewe or none that can reade it.' Ac mae sôn am ŵr eglwysig o Gymro a ddadleuodd yn un o gynghorau'r eglwys y dylai'r bobl ddysgu Saesneg a cholli eu Cymraeg ac na wnâi Beibl Cymraeg 'ddim da, namyn llawer o ddrwg'. Dyfalbarhad a phenderfyniad a llafur Salesbury yn anad neb a arweiniodd at orchfygu epil Jiwdas gan esgor ar gyhoeddiadau hollbwysig 1567.

Soniwyd uchod am rai o nodweddion rhyfedd Cymraeg Salesbury. Mae'n sicr iddynt beri trafferth weithiau yn yr eglwysi pan gamddarllenai ambell offeiriad ei ffurfiau Lladinaidd a'i gyfuniadau didreigliad. Ond ni ddylai hynny ein dallu i orchestwaith cyfieithiadau Salesbury, eu hysgolheictod Beiblaidd cadarn a'u Cymraeg cynhenid gyfoethog ac addas urddasol. Wrth baratoi Beibl 1588 cymhennu a thwtio Testament Newydd a Salmau Salesbury a wnaeth William Morgan yn bennaf, gan sefyll ar ysgwyddau ei ragflaenydd mawr. Mewn teyrnged i waith arloesol Salesbury dywedodd ei gyfoeswr (a'i berthynas) Edmwnd Prys, awdur y Salmau Cân, amdano: 'Blaenorai'r Beibl, ni wyra, / Blin drwy'r iaith blaendorri'r iâ'. Mae'n addas i ninnau yn 2017 fawrygu'r gŵr mawr o Lansannan a chofio am ei gymwynas a'i gamp.

*Gruffydd Aled Williams*

## *Croesawu aelodau Capel Horeb, Dyffryn Ardudwy, i'r Garn*

Bore Sul, 16 Gorffennaf, ymunodd aelodau a phlant Capel Horeb, Dyffryn Ardudwy, â ni yn ein gwasanaeth, dan arweiniad y Parch R W Jones, Wrecsam. Roedd hyn yn arbennig o addas gan iddo fod yn weinidog ar y ddau gapel am nifer o flynyddoedd, yn eu tro. Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a chacennau blasus, a baratowyd gan Delyth Jones.





***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Robert Williams, Rehoboth
*Is-gadeirydd*: Janet Jones, Nasareth
*Ysgrifennydd*: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **4 Rhagfyr**:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewianerys@gmail.com

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com